23 January 2019

The twenty-first meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group

The Institute, Pontarddulais

Attendees
David Owen, Planning, City and County of Swansea
Emma North, Planning, City and County of Swansea
Cllr. Kevin Griffith, Pontarddulais Town Council
Cllr. Wyn Morgan, Penllergaer Community Council
Philip McDonnell, Chair
Michael Williams, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Welcome and introductions
The chair welcomed participants. There were fewer attendees than normal, perhaps indicating that the impact of constructing the wind farm is diminishing as the project nears completion.

2. Apologies
Paul Newman, Pontlliw and Tircoed Community Council; Brigitte Rowlands, Secretary, West Glamorgan Commoners' Association; Sgt. Philip Morris, SWP.

3. Minutes of the previous meeting & matters arising
3.1 The minutes were agreed as a true record of the previous meeting. Proposed by KG and seconded by EN.
3.2 Referring to item 4.1 and 4.2 MW explained that he had been in correspondence with the resident and had met him on 3rd January to discuss his concerns. In terms of the impact that the road widening is having on him, MW informed members that he would discuss the issues with the Highways Department (regarding possible signage).
3.3 The matter concerning the vibrating cattle grid near to the Bolgoed Road entrance (item 4.5) has been resolved since the structure was firmly welded down, as no further complaints have been received.
3.4 With regard to signage notifying road users of the AIL deliveries (item 5.22), MW explained that the signs were brought down on 21st December, and put back up in early January to reflect the revised AIL delivery dates, starting from 7th January for a period of 8 weeks. Communications were distributed via text and twitter, and councillors were informed. A Press Release was also sent out.
3.5 Referring to item 5.25, MW explained that the construction team had had to work beyond the stated working hours on only three occasions, with the permission of the local authority, and each time, a text alert was distributed to this effect.

4. Correspondence
4.1 MW had received correspondence from a local resident near to the Bolgoed Road site entrance complaining about the noise of a generator. Innogy had investigated and couldn't find the source of the noise.
4.2 Correspondence has been received from Wayne Arrowsmith of Mawr Council raising the same matters that he raised when he attended a previous CLG meeting relating to the control building area. MW entered into detailed correspondence with WA on the matter, and EN had sent him links to the planning documents for his reference.

5. Update from Michael Williams
5.1 All civil infrastructure is completed to enable delivery and erection of wind turbines.
5.2 Farrans have a smaller presence on site supporting other activities, maintaining tracks and snagging works.
5.3 Some plant will need to be remobilised after turbine erection to undertake landscaping/reinstatement to hardstands.
5.4 WPD works are complete, and the site was energised on 13th December 2018. Some minor modifications are required, to be undertaken later this year.
5.5 Electrical works: all site infrastructure is now installed, i.e. site cabling, external transformer stations (ETS), control building and external switchgear and transformer.

5.6 Electrical cable, multicore and fibre terminations are being completed across site within the ETSs and between ETS and Wind Turbine Generator (WTG). Commissioning of the ETSs is continuing.
5.7 The site is energised from the substation through to ETS103, and cable links between ETS and WTG (101 to 103) are currently being completed. WTG101 to WTG103 are now commissioned and should produce first power very soon. Testing and energisation of the circuits will be progressed so other WTGs will be brought on line as they are commissioned.

Turbines:

5.8 Four turbines were fully erected prior to Christmas break.
5.9 Two crane teams are now on site (the second team was mobilised on 3rd December 2018).
5.10 The site shut down for Christmas but was remobilised on 3rd January.
5.11 Ten turbines are now fully erected: T101, T102, T103, T104, T106, T202, T203, T206, T207 & T208.
5.12, T105 is currently being erected (bottom tower section erected) and T205 (up to nacelle), and it is intended that they will be completed this week.
5.13 There are 4 turbines outstanding (T108, T107, T204 and T201) and it is intended that these be erected in the next 2-3weeks, if the weather stays calm.
5.14 There are part of four turbines remaining to be delivered, comprising 4 nacelles, 10 tower sections and 1 blade (15 components in total). All other blades and sections are on site (15 of 112 remaining, so 87% of deliveries are complete).
5.15 A further 6/7 components should be delivered this week, and it is expected that all deliveries will be completed by 8th February based on current progress and calm weather. Approximately a further 7/8 deliveries are required.
5.16 All remaining components are being stored at the Port of Swansea.
5.17 The text service is still being utilised with approx. 250 people signed up, of which a small number have unsubscribed. There appears to be a delay in some recipients receiving the text alert messages, but these seem to be isolated and occasional incidents.
5.18 No issues regarding the deliveries have been raised – the Police and Haulier are happy with progress to date.
5.19 The Penllergaer Primary School visit, due to take place on 28th November was delayed due to poor weather. This will be rescheduled.
5.20 Rhododendron clearance continues to the area north of Five Ways towards the dam works with stem injection of plants to the river's edge. Burning of cuttings is to start shortly.
5.21 No archaeological supervision is currently required, but the archaeologist will be brought back to supervise restoration and reinstatement if this requires the breaking of ground.
5.22 Following the erection of turbines, there will still be a construction presence on site, dealing with reinstatement and snagging issues.
5.23 The splitter islands on Penllergaer roundabout will be reinstalled after the deliveries have been completed. There is no date for this installation as yet, but it is likely to happen during the spring. Some double yellow lines also need to be removed.

6. AOB & next meeting:

6.1 David Owen advised that given the low turnout at the meeting, and the fact that construction was coming to an end, the CLG could be disbanded. The planning condition requires that the CLG meet only during the construction period and this is reflected in the CLG terms of reference.
6.2 The Chair suggested that CLG members be invited on a site visit, and that this would round things off succinctly. It was agreed that the site visit would take place at 3.30 pm on Thursday 7th February, when the final set of minutes (23 January 2019) can be agreed and matters can be formally brought to a close. AD will send further details to all CLG members.
6.3 The Chair expressed his gratitude to CLG members for giving up their time over the last two years and for their cooperation, fairness, willingness to listen, and the respectful manner in which the CLG meetings had been conducted. The Chair also expressed his gratitude to the communities who have provided meeting rooms over the period.

The meeting concluded at 6.45 pm.

23 Ionawr 2019

Unfed cyfarfod ar hugain o Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair

Yr Institute, Pontarddulais

Yn bresennol
David Owen, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Emma North, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Cynghorydd Kevin Griffith, Cyngor Tref Pontarddulais
Cynghorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penlle'r-gaer
Philip McDonnell, Cadeirydd
Michael Williams, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Croeso a chyflwyniadau
Croesawodd y cadeirydd y rhai oedd yn bresennol. Roedd llai o bobl yn bresennol na'r arfer. Arwydd efallai bod effaith adeiladu'r fferm wynt yn lleihau wrth i'r prosiect ddirwyn i ben.

2. Ymddiheuriadau
Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed; Brigitte Rowlands, Ysgrifennydd, Cymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg; Sgt. Philip Morris, Heddlu De Cymru.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi
3.1 Cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol. Cynigiwyd gan KG ac eiliwyd gan EN.
3.2 Gan gyfeirio at eitem 4.1 a 4.2, eglurodd MW ei fod wedi gohebu â'r preswylydd ac wedi cyfarfod ag ef ar 3ydd Ionawr i drafod ei bryderon. O ran yr effaith y mae'r ehangu ffordd yn ei chael arno, hysbysodd MW yr aelodau y byddai'n trafod y materion gyda'r Adran Briffyrdd (ynglŷn ag arwyddion posibl).
3.3 Mae'r mater ynglŷn â'r grid gwartheg sy'n dirgrynu ger mynedfa Bolgoed Road (eitem 4.5) wedi'i ddatrys oherwydd bod y strwythur wedi'i weldio'n gadarn bellach, ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion pellach.
3.4 O ran arwyddion sy'n hysbysu defnyddwyr ffyrdd o gyflenwadau AIL (eitem 5.22), eglurodd MW fod yr arwyddion wedi'u tynnu i lawr ar 21ain Rhagfyr, a'u hail-osod ar ddechrau mis Ionawr i adlewyrchu dyddiadau diwygiedig AIL, gan ddechrau o 7fed Ionawr am gyfnod o 8 wythnos. Dosbarthwyd deunydd cyfathrebu drwy gyfrwng negeseuon testun a Twitter, a hysbyswyd cynghorwyr. Anfonwyd Datganiad i'r Wasg hefyd.
3.5 Gan gyfeirio at eitem 5.25, eglurodd MW fod y tîm adeiladu wedi gorfod gweithio y tu hwnt i'r oriau gwaith a nodwyd ar dair achlysur yn unig, gyda chaniatâd yr awdurdod lleol, a phob tro, anfonwyd rhybudd fel neges destun i'r perwyl hwn.

4. Gohebiaeth
4.1 Roedd MW wedi derbyn gohebiaeth gan breswyliwr lleol gerllaw mynedfa safle Bolgoed Road yn cwyno am sŵn y generadur. Ymchwiliodd Innogy ac ni allent ddod o hyd i ffynhonnell y sŵn.
4.2 Derbyniwyd gohebiaeth gan Wayne Arrowsmith o Gyngor Mawr, yn codi'r un materion a gododd pan fynychodd gyfarfod blaenorol o'r Grŵp Cyswllt Cymunedol yn ymwneud â'r ardal adeiladu. Ymgymerodd MW â gohebiaeth fanwl â WA ar y mater, ac anfonodd EN ddolenni ato i'r dogfennau cynllunio er gwybodaeth.

5. Diweddariad gan Michael Williams
5.1 Mae pob seilwaith sifil wedi'i gwblhau i alluogi i'r tyrbinau gwynt gael eu cyflwyno a'u codi.
5.2 Mae gan Farrans bresenoldeb llai ar y safle yn cefnogi gweithgareddau eraill, cynnal traciau a gwaith snagio.
5.3 Bydd angen i rywfaint o'r gwaith gael ei symud ar ôl codi'r tyrbinau i ymgymryd â thirlunio/adfer i'r llawr caled.
5.4 Mae'r gwaith WPD yn gyflawn, ac fe gafodd y safle ei bŵer ar 13eg Rhagfyr 2018. Mae angen gwneud rhai mân newidiadau yn ddiweddarach eleni.
5.5 Gwaith trydanol: mae holl seilwaith y safle bellach wedi'i osod, ee ceblau'r safle, gorsafoedd trawsffurfio allanol (ETS), adeilad rheolaeth a thrawsnewidydd allanol.

5.6 Mae terfynau cebl trydan, aml-graidd a ffibr yn cael eu cwblhau ar draws y safle o fewn yr ETSs a rhwng yr ETS a'r Generadur Tyrbin Gwynt (WTG). Mae comisiynu'r ETSs yn parhau.
5.7 Mae'r safle wedi cael ei bŵer o'r is-orsaf drwy'r ETS103, ac mae cysylltiadau cebl rhwng ETS a WTG (101 i 103) yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Mae WTG101 i WTG103 bellach yn cael eu comisiynu a dylent gynhyrchu'r pŵer cyntaf yn fuan iawn. Bydd profion ac egni'r cylchedau yn datblygu fel bod WTGs eraill yn dod ar-lein wrth iddynt gael eu comisiynu.

Tyrbinau:
5.8 Adeiladwyd pedwar tyrbin yn llwyr cyn gwyliau'r Nadolig.
5.9 Mae dau dîm craen ar y safle ar hyn o bryd (symudwyd yr ail dîm ar 3ydd Rhagfyr 2018).
5.10 Caeodd y safle ar gyfer y Nadolig ond ail-agorodd ar 3ydd Ionawr.
5.11 Mae deg o dyrbinau wedi'u codi'n llawn erbyn hyn: T101, T102, T103, T104, T106, T202, T203, T206, T207 a T208.
5.12 Mae T105 yn cael ei godi ar hyn o bryd (adran waelod wedi codi) a T205 (hyd at nacelle), a'r bwriad yw cwblhau yr wythnos hon.
5.13 Mae 4 tyrbin yn weddill (T108, T107, T204 a T201) a bwriedir codi'r rhain yn y 2-3 wythnos nesaf, os yw'r tywydd yn aros yn sefydlog.
5.14 Mae rhan o bedwar tyrbin yn weddill, sy'n cynnwys 4 nacelles, 10 rhan o dŵr ac 1 llafn (cyfanswm o 15 cydran). Mae'r holl lafnau a rhannau eraill ar y safle (15 o 112 yn weddill, felly mae 87% o'r cyflenwadau wedi'u cwblhau).
5.15 Dylid derbyn 6/7 o gydrannau pellach yr wythnos hon, a disgwylir y bydd popeth wedi'i ddosbarthu erbyn 8fed Chwefror yn seiliedig ar gynnydd cyfredol a'r tywydd sefydlog. Mae angen tua 7/8 dosbarthiad pellach.
5.16 Mae'r holl gydrannau sy'n weddill yn cael eu storio ym Mhorthladd Abertawe.
5.17 Mae'r gwasanaeth testun yn dal i gael ei ddefnyddio gyda thua 250 o bobl wedi cofrestru, gyda nifer fach ohonynt wedi dad-danysgrifio. Mae'n ymddangos bod rhai derbynwyr wedi wynebu oedi wrth dderbyn eu negeseuon testun, ond mae'n debyg mai achosion unigol ac ynysig oedd y rhain.
5.18 Ni chodwyd unrhyw faterion ynghylch y cyflenwadau - mae'r Heddlu a'r cludwyr yn hapus gyda'r cynnydd hyd yn hyn.
5.19 Cafwyd oedi gydag ymweliad Ysgol Gynradd Penlle'r-gaer ar 28 Tachwedd oherwydd y tywydd gwael. Bydd yn cael ei ail-drefnu.
5.20 Mae clirio'r rhododendron yn parhau i'r gogledd o Five Ways tuag at yr argae, drwy chwistrellu'r planhigion hyd at lan yr afon. Bydd y broses o losgi toriadau yn dechrau'n fuan.
5.21 Nid oes angen goruchwyliaeth archeolegol ar hyn o bryd, ond bydd yr archeolegydd yn dod yn ôl i oruchwylio'r broses o adnewyddu ac adfer os bydd angen torri tir.
5.22 Ar ôl codi'r tyrbinau, bydd presenoldeb adeiladu ar y safle o hyd, i ddelio â materion adfer a snagio.
5.23 Bydd yr ynysoedd hollti ar gylchfan Penlle'r-gaer yn cael eu hailsefydlu ar ôl i'r cyflenwadau gael eu cwblhau. Nid oes dyddiad ar gyfer y gwaith hwn hyd yma, ond mae'n debygol o ddigwydd yn ystod y gwanwyn. Mae angen tynnu rhai llinellau melyn dwbl hefyd.

6. Unrhyw fater arall a'r cyfarfod nesaf:
6.1 Cynghorodd David Owen, o ystyried y ffaith nad oedd llawer yn bresennol yn y cyfarfod, a'r ffaith bod y gwaith adeiladu'n gorffen, y gallai'r Grŵp Cyswllt Cymunedol ddirwyn i ben. Mae'r amod cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grŵp Cyswllt Cymunedol gyfarfod yn ystod y cyfnod adeiladu yn unig ac adlewyrchir hynny yng nghylch gorchwyl y Grŵp Cyswllt Cymunedol.
6.2 Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd aelodau Grŵp Cyswllt Cymunedol i ymweld â'r safle, a byddai hyn yn dod â phethau i ben yn hwylus. Cytunwyd y byddai'r ymweliad â'r safle yn digwydd am 3.30pm ddydd Iau 7fed Chwefror, pan ellir cytuno ar y set olaf o gofnodion (23 Ionawr 2019) ac y gellir dod â materion i ben yn ffurfiol. Bydd AD yn anfon mwy o fanylion at holl aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol.
6.3 Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol am roi o'u hamser yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac am eu cydweithrediad, tegwch, parodrwydd i wrando, a'r ffordd barchus y cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol. Hefyd, mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i'r cymunedau sydd wedi cynnig ystafelloedd cyfarfod dros y cyfnod.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm.